Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Cymorth tai i bobl sy'n agored i niwed

Mai 2025

## 1. Cyflwyniad

**1.** Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i dai priodol yng Nghymru ac wrth ragweld y Bil disgwyliedig gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â digartrefedd, gwnaethom gytuno i gynnal ymchwiliad byr i archwilio cymorth tai i bobl sy'n agored i niwed. Roedd y cylch gorchwyl yn cynnwys archwilio effeithiolrwydd cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol y Grant Cymorth Tai, y pwysau presennol a'r pwysau a ragwelir, perfformiad gwasanaethau, cydweithio a gwasanaethau yn y dyfodol.

### Casglu tystiolaeth

**2.** Ar 6 Mawrth 2025, gwnaethom gynnal cyfres o sesiynau tystiolaeth lafar gyda chynrychiolwyr o'r sector tai, gan gynnwys darparwyr cymorth, elusennau digartrefedd, cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol. Ar 19 Mawrth, gwnaethom gynnal sesiwn dystiolaeth lafar gyda Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol ("Ysgrifennydd y Cabinet"). Mae trawsgrifiadau'r cyfarfodydd ar gael ar ein gwefan.

**3.** Gwnaethom wahodd rhanddeiliaid perthnasol i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig. Mae'r ymatebion ar gael ar ein gwefan.

**4.** Cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd gyfres o grwpiau ffocws a chyfweliadau â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau tai a gweithwyr rheng flaen sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hynny. Mae crynodeb o'r canfyddiadau ar gael ar ein gwefan.

# 2. Dull strategol Llywodraeth Cymru

**5.** Roedd pob tyst yn gadarnhaol ynghylch nodau polisi Llywodraeth Cymru i gyflwyno ailgartrefu cyflym a Tai yn Gyntaf. Fodd bynnag, dywedodd llawer fod ffactorau arwyddocaol yn atal cynnydd, yn bennaf diffyg tai i symud pobl iddynt o lety dros dro. Dywedodd Platfform fod pobl yn cyrraedd eu gwasanaethau wedi’u difrodi’n fwy oherwydd nad yw dull strategaeth tai Llywodraeth Cymru wedi deall yn llawn faint o dan-ariannu sydd o fewn cymorth tai a thai cymdeithasol gyda’i gilydd.[1]

**6.** Fe wnaeth nifer ganmol penderfyniad Llywodraeth Cymru i barhau i glustnodi cyllid y Grant Cymorth Tai. Fodd bynnag, dywedodd llawer fod anghysondeb rhwng uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a'r adnoddau sydd ar gael. Dywedodd rhai, gan gynnwys Cartrefi Cymunedol Cymru a Cymorth, fod angen gwell data ar Lywodraeth Cymru ar yr angen am gymorth i lywio ei dull ariannu.

**7.** Galwodd llawer am gyllid dangosol tymor hwy ar gyfer y sector, a nododd Cymorth bod gwneud cynllunio hirdymor yn anodd pan fo cyllid yn flynyddol. Croesawodd rhanddeiliaid y cynnydd o £21 miliwn yn y Grant Cymorth Tai yng nghyllideb 2025-26. Hefyd, canmolodd rhai fuddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru yn y Grant Tai Cymdeithasol/y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol ond dywedwyd nad oedd yr un lefel o fuddsoddiad yn amlwg mewn ffrydiau cyllid refeniw, fel atal digartrefedd, sy’n arian gwastad ar gyfer 2025-26.

**8.** Disgrifiodd rhai ganlyniadau anfwriadol ailgartrefu cyflym. Rhybuddiodd Platfform fod rhai awdurdodau'n comisiynu llety â chymorth ar raddfa fawr, gan gartrefu 70 neu ragor o bobl yn barhaol mewn un adeilad, sy’n peri risg o 'sefydliadu digartrefedd'.[2] Soniodd Clwyd Alyn wrthym am ddau brosiect ar gyfer pobl ifanc, ac er bod yr un llai yn cael gwell canlyniadau, mae’n costio mwy na’r un mwy. Roedd tystion awdurdodau lleol yn cydnabod y gallai llety llai arwain at ganlyniadau gwell, ond dywedon nhw fod graddfa fwy yn aml yn fwy hyfyw yn ariannol ac nad ydynt yn gallu fforddio ei ddiystyru.

**9.** Clywsom gan Ysgrifennydd y Cabinet nad oes gan Lywodraeth Cymru ddata ar anghenion cymorth ac mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cynllunio a chomisiynu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai i ddiwallu eu hanghenion lleol. Ychwanegodd ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu

[1] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 122
[2] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, HSVP 15: Platfform

strategaeth rhaglen cymorth tai pedair blynedd, wedi'i llywio gan eu hasesiad anghenion cynhwysfawr eu hunain, sy'n amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer anghenion cymorth tai. Mae hefyd yn ofynnol iddynt gael cynllun cyflawni Grant Cymorth Tai ar waith i gyflwyno eu gwariant blynyddol, sy'n nodi sut maent yn bwriadu gwario eu dyraniad i gyflawni eu blaenoriaethau.[3]

**10.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y manteision i'r sector o ddarparu cyllid dangosol aml-flwyddyn, ond dywedodd nad oedd yn bosibl nodi cyllid tymor hwy ar hyn o bryd oherwydd dim ond o fewn yr amlen a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU y gallai Llywodraeth Cymru weithio.

## Ein barn ni

**11.** Rydym yn nodi'r gefnogaeth i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r dull Tai yn Gyntaf a'r dull ailgartrefu cyflym. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y rhwystrau sy'n effeithio ar gynnydd ar hyn o bryd, yn bennaf diffyg opsiynau tai cymdeithasol parhaol. Fe wnaethon ni archwilio hyn yn fanylach yn ein hadroddiad diweddar ar y cyflenwad o dai cymdeithasol.

**12.** Roeddem yn synnu o glywed nad oes gan Lywodraeth Cymru ddata ar lefel genedlaethol ar yr angen am gymorth tai. Mae'r Grant Cymorth Tai yn hanfodol i gyflawni dull ailgartrefu cyflym Llywodraeth Cymru a chyflawni ei hymrwymiad i sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd, felly mae sicrhau bod adnoddau digonol gan y grant i ddiwallu’r angen yn allweddol. Rydym yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data pwysig hwn wrth asesu gofynion cyllido hirdymor y Grant Cymorth Tai. Mae'r dull tymor byr hwn yn golygu bod y sector cymorth yn buddsoddi llawer o ymdrech mewn ymgyrchu bob blwyddyn am gynnydd yn y gyllideb er mwyn osgoi argyfwng.

**Casgliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru fodelu maint yr angen am wasanaethau cymorth tai ar lefel genedlaethol a defnyddio'r data i ragweld y lefelau gwariant blynyddol gofynnol yn y Grant Cymorth Tai i ddiwallu'r angen hwnnw ar sail hirdymor.

**13.** Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chyllid blynyddol, ac yn cytuno bod cyllid aml-flwyddyn yn fuddiol o ran rhoi mwy o sicrwydd. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod oherwydd bod ei chyllid ei hun yn cael ei ddarparu'n flynyddol, rydym yn nodi bod meysydd eraill o

[3] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 4

gyllideb Llywodraeth Cymru, fel y GIG, yn elwa o gyllid dangosol tymor hwy ac nid ydym yn gweld pam y dylid trin y Grant Cymorth Tai yn wahanol.

**14.** Yn fwy cyffredinol, rydym yn croesawu’r penderfyniad i barhau i glustnodi'r Grant Cymorth Tai i sicrhau bod gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn parhau i gael eu blaenoriaethu. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i beidio â newid y dull hwn yn y dyfodol.

**15.** Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan rai mewn perthynas â llety ar raddfa fawr. Mae'n bryderus ei bod yn ymddangos bod diffyg tystiolaeth sy’n llywio'r mathau o wasanaethau a llety sy'n cael eu comisiynu o dan y faner o ailgartrefu cyflym. Nodwn nad yw **canllawiau ailgartrefu cyflym** Llywodraeth Cymru yn benodol ynghylch graddfa na dyluniad modelau gwasanaeth priodol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio i wella'r sail dystiolaeth ar gyfer ailgartrefu'n gyflym a sicrhau bod awdurdodau lleol yn dilyn arfer da sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod ei gwaith i weithredu ailgartrefu cyflym yn cael ei arwain yn fwy gan dystiolaeth. Dylai hyn gynnwys adolygu a gwella'r sail dystiolaeth ar fodelau arfer da, nodi a llenwi bylchau yn ôl yr angen a defnyddio'r sail dystiolaeth well hon i osod disgwyliadau clir ar awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol ar gyfer modelau priodol o lety a chymorth. Dylid gosod amserlenni a cherrig milltir, wedi'u hategu gan gyllid, i lywio'r newid hwn.

**Casgliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad annibynnol o effeithiolrwydd llety â chymorth ar raddfa fawr, gan ystyried safbwyntiau tenantiaid.

# 3. Y pwysau ar wasanaethau

## Cynnydd yn y galw

**16.** Mae'r galw am wasanaethau cymorth tai yn cynyddu, yn bennaf gan fod niferoedd cynyddol o bobl yn cael eu hasesu fel pobl sy’n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd, ac yn sgil prinder eiddo. Mae prinder tai addas, sefydlog i bobl symud ymlaen iddynt yn rhoi pwysau ychwanegol ar y system. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at brinder llety i bobl sydd wedi'u cartrefu mewn llety dros dro a llety â chymorth symud ymlaen iddynt, gan arwain at arosiadau sy’n ddiangen o hir. Nododd Cyngor Sir Ceredigion ddiffyg penodol o lety i bobl ag anghenion cymhleth, nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gofal

cymdeithasol, symud ymlaen iddynt. Yn ôl Cyngor Sir Powys, mae gormod o aelwydydd bregus yn gorfod rhentu'n breifat oherwydd prinder cartrefi cymdeithasol, gan olygu eu bod yn talu rhenti uwch a'u bod mewn perygl o gael eu troi allan heb fai.

**17.** Soniodd llawer o dystion am yr anawsterau sy’n gysylltiedig â symud pobl ymlaen i gartrefi parhaol. Nododd llawer fod diffyg cartrefi un ystafell wely yn broblem graidd.

**18.** Pwysleisiwyd argaeledd ac addasrwydd darpariaeth tai fel her allweddol gan gyfranwyr yn ein grwpiau ffocws, a nododd fod hyn yn gyffredin ar draws gwahanol fathau o lety. Dywedodd un cyfrannwr yn Abertawe y canlynol:

> *“Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae’n rhaid mai penwythnos Gŵyl y Banc oedd hi. Doedden nhw methu dod o hyd i le mewn gwesty… Does gan Gastell-nedd Port Talbot ddim llawer o lety dros dro felly mae llawer o bobl yn cael eu gosod y tu allan i Gasnewydd, yng Nghaerdydd…ond dyw pobl ddim eisiau mynd.”*

**19.** Dywedodd cyfranwyr hefyd fod y diffyg tai sydd ar gael yn cael ei waethygu gan y farn bod llawer o'r llety dros dro presennol yn anaddas ar gyfer cefnogi unigolion sy'n wynebu heriau lluosog, yn aml o dan straen sylweddol, wrth fyw'n annibynnol, gydag un yn nodi:

> *“Un o’r prif bethau rydyn ni’n gweld pobl yn cael trafferth gydag ef yw does dim cyfleusterau coginio. Felly mae ganddyn nhw wely, ond dyw un o'r anghenion sylfaenol o allu coginio ddim yno.”*

**20.** Amcangyfrifodd grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu, sy'n rhan o Fwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru, fod angen lefel o gymorth tai ar 70 y cant o denantiaid cymdeithasau tai i gynnal eu tenantiaeth, ond mai dim ond cyfran fach sy'n derbyn cymorth a ariennir gan y Grant Cymorth Tai ar hyn o bryd.

**21.** Clywsom, drwy ganolbwyntio ar ymateb i'r galwadau cyson am lety cymdeithasol a dros dro, yn aml nad yw gwaith atal ymhellach i fyny’r broses yn cael ei flaenoriaethu a bod cyllid weithiau'n cael ei dorri. Galwodd Byddin yr Iachawdwriaeth am wahanu'r Grant Atal Digartrefedd oddi wrth y Grant Cymorth Tai, gyda chanllawiau mwy penodol yn cael eu rhoi i awdurdodau lleol ar sut i'w wario. Nododd Cymorth, o ran y mater o atal yn erbyn argyfwng, yn

gyffredinol bod mwy o ymladd tân, gan ddweud hefyd bod y Grant Cymorth Tai yn parhau i gyfrannu at atal, ond bod y maint o ymladd tân ac atal argyfwng yn gyfran fwy nag yr hoffai..[4] Mynegwyd neges debyg gan Clwyd Alyn a ddywedodd y canlynol:

> *“austerity and increasing pressures on statutory services has meant that many organisations have changed their eligibility criteria for service, so they can only provide services to those who have the most significant needs, which means that we do much less of the preventative work that enables people to not transition to the more complex services in the future. So, I think thresholds has been a real issue, and less of a focus on prevention.”*[5]

**22.** Dywedodd llawer o ddarparwyr fod y galw am wasanaethau wedi cynyddu, o ran nifer y bobl a chymhlethdod eu hamgylchiadau. Dywedodd Cymorth fod ei aelodau wedi gweld cynnydd mewn digwyddiadau’n ymwneud â thrais, camdriniaeth ac arfau.

**23.** Adroddodd y grwpiau ffocws am gynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion sy'n ceisio gwasanaethau cymorth tai sydd ag anghenion cymhleth ac amlochrog nad ydynt yn cael eu trin yn effeithiol gan feysydd eraill fel iechyd. Roedd hyn yn aml yn arwain at yr unigolyn yn wynebu heriau i fyw'n annibynnol a chynnal cartref. Galwodd cyfranwyr am fwy o dryloywder a chymorth cydgysylltiedig gan wasanaethau arbenigol. Dywedodd cyfrannwr yn Rhondda Cynon Taf:

> *“yr hyn yr ydym yn ei weld yw bod pobl yn dod atom gyda lefelau uchel o ddyled, risg uchel o droseddu neu'n dal i droseddu ar hyn o bryd yn dal i gamddefnyddio sylweddau neu ddim yn barod am gymorth. Felly mae'n rhaid iddynt fynd i rywle gan fod hosteli'n llawn a bod y llety dros dro yn llawn. Ry’n ni’n gefnogaeth lefel ganolig, 9 – 5, o ddydd Llun i ddydd Gwener. . . Pan fydd pobl yn dod i mewn gyda lefelau uchel o angen mae'n anodd datrys yr holl faterion mewn wythnos 37 awr, dim ond un person gyda nifer o bobl gymhleth.”*

**24.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y pwysau gwirioneddol a phwysau costus, yn ariannol ac ar yr unigolion sydd mewn llety dros dro. Derbyniodd fod yn rhaid i

[4] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 209
[5] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 305

awdurdodau lleol addasu eu hadnoddau Grant Cymorth Tai yn unol â hynny ond nad oedd yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi bod ar draul gwasanaethau ataliol ehangach o fewn y Grant Cymorth Tai.[6]

## Gwydnwch y gweithlu

**25.** Cyfeiriodd tystion at straen a lludded staff, a heriau gyda recriwtio a chadw. Disgrifiodd Cymorth a Platfform y trawma a brofir gan weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â sefyllfaoedd o argyfwng, yn aml heb gefnogaeth gwasanaethau fel yr heddlu ac iechyd meddwl. Tynnodd llawer sylw at gymhlethdod y gwaith a wneir, megis cynnig cyngor ar ddeddfwriaeth tai, lles, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

**26.** Yn ogystal, dywedodd y Wallich wrthym ei fod weithiau'n gweld staff sydd, wrth geisio cefnogi'r rhai mewn angen, mewn perygl o fynd yn ddigartref eu hunain.

**27.** Tynnwyd sylw hefyd at bwysau ar y gweithlu gan grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu. Fe wnaethant gyfeirio at heriau fel cydnabyddiaeth y gweithlu gan gynnwys cyflog, sgiliau a chymwysterau; natur tymor byr rhai contractau cyflogaeth; diffyg amser, adnoddau a gallu i ddarparu'r ymarfer myfyriol a'r cymorth sydd eu hangen pan fydd staff wedi profi trawma yn y gweithle; a'r angen i wasanaethau comisiynu allu darparu adnoddau ar gyfer yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn arferion cyflogaeth da safonol mewn sectorau eraill.

**28.** Cytunodd Platfform a Cymorth nad yw gweithwyr cymorth yn cael eu gwerthfawrogi digon gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a hefyd ym mholisi’r llywodraeth. Dywedodd Cymorth wrthym fod cyflog a chydnabyddiaeth staff gwell yn hanfodol i gael gweithlu cymorth tai cynaliadwy sy’n helpu i gyflawni’r uchelgais o roi terfyn ar ddigartrefedd .[7]

**29.** Cafodd yr effaith ar y gweithlu rheng flaen ei godi yn sesiynau'r grwpiau ffocws hefyd. Dywedodd un cyfrannwr yng Nghaerdydd sydd wedi gweithio yn y sector ers 30 mlynedd y canlynol:

> *“Beth fyddwn i’n ei ddweud yw nad ydw i erioed wedi gweld pethau mor ddrwg â hyn. [ ]Rydyn ni’n rheoli argyfyngau o hyd ac i fod yn gwbl onest, petaswn i’n ifanc nawr byddwn i’n gadael tai â chymorth achos mae gymaint o straen ac mae hi*

[6] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 46
[7] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 219

*mor anodd gallu cael llwyddiant o unrhyw fath a dweud y gwir."*

**30.** Tynnodd llawer o gyfranwyr sylw at y gwrthgyferbyniad llwyr rhwng y llwyth gwaith trwm a'r penderfyniadau mawr y mae staff tai yn eu hwynebu a'r cyflog cymharol isel a gânt:

> *"Mae gennych chi staff rheng flaen yn yr hosteli sydd fwy neu lai ar isafswm cyflog yn gwneud shifft nos, yn gwneud shifftiau 12 awr a dydy'r rheolwyr ddim yn yr hosteli ar benwythnosau. Falle bod gennych chi ddau weithiwr cymorth yn rheoli gorddos, yn rheoli ymddygiad heriol. . . Trosiant staff. . . cyn gynted ag y byddwch chi'n cael rhywun da sydd wedi'i hyfforddi hyd at lefel benodol, maen nhw'n meddwl, wel gallwn i ennill yr un arian mewn swydd sy'n achosi llai o straen. . . Weithiau maen nhw'n gorfod gwneud penderfyniadau sy'n fater o fywyd neu farwolaeth ar eu pen eu hunain a dim ond ceiniogau maen nhw'n eu cael."*[8]

**31.** Nodwyd bod yna "lawer iawn o sgil mewn ymgysylltu arbenigol, trothwy isel a phendant" nad yw efallai'n cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru. Clywsom fod gwasanaethau allgymorth yn cael eu "hail-dendro am gost rhatach dro ar ôl tro" ond yr hyn sydd ei angen yw'r "bobl hynny sydd â'r gwytnwch a'r arbenigedd arbenigol, ac mae angen i'w cyflogau adlewyrchu hynny." [9]

**32.** O ran cyllidebau, nododd cynrychiolwyr y trydydd sector a chymdeithasau tai ei bod yn gyffredin i wasanaethau gael eu rhedeg gyda dyledion, ond nad yw darparwyr, yn gynyddol, yn gallu cyfiawnhau talu gorbenion eu hunain. Dywedodd Clwyd Alyn fod cytundebau weithiau'n rhedeg heibio'u dyddiad terfyn, sy'n golygu bod darparwyr yn rhedeg prosiectau'n seiliedig ar gyllidebau sydd wedi dyddio. Dywedodd darparwyr bod risg uwch o gontractau'n cael eu rhoi yn ôl. Dywedodd tystion awdurdodau lleol fod cytundebau weithiau'n cael eu hysbysebu gyda chyllidebau sefydlog ac nad oes unrhyw ddarparwr wedi tendro amdanynt.

**33.** Er bod y cynnydd o £21 miliwn yn y Grant Cymorth Tai wedi'i groesawu'n eang, dywedodd Cymorth fod diffygion ariannol sylweddol ledled Cymru o hyd. Rhybuddiodd Cymorth fod y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol a

---

[8] Cyfrannwr grŵp ffocws, Abertawe
[9] Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd

gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn peri risg i gynaliadwyedd gwasanaethau ac y gallai arwain at ddiswyddiadau, neu at gontractau'n cael eu rhoi yn ôl:

> *"national insurance contributions, which are an absolute disaster for this sector, which is unlikely to receive additional funding from the UK Government because it sits outside the definition of public services because it's commissioned, and this will put financial holes in services that have no room for manoeuvre, which could be devastating and people actively thinking about handing contracts back."*[10]

**34.** Dywedodd Platfform pe bai prosiectau cymorth tai yn dod i ben, byddai'n rhaid i bob person sy'n cael cymorth droi yn ôl ar wasanaethau statudol. Galwodd Platfform ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau ei bod yn ystyried bod y gweithlu cymorth tai yr un mor bwysig â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

**35.** Cyfeiriodd Cymorth at ddata arolwg o fis Hydref 2024, a ganfu, er bod 91 y cant o ddarparwyr yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, nad oedd 79 y cant yn derbyn y cyllid angenrheidiol ac felly'n defnyddio incwm o ffynhonellau eraill i dalu am hyn.

**36.** Dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru wrthym fod awdurdodau lleol wedi cael eu gofyn i gyflwyno eu cynlluniau gwariant blynyddol, sydd hyd yn hyn yn dangos bod rhywfaint o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio tuag at gyfraniadau yswiriant gwladol, ond nid yw'n dweud hyd yn hyn y bydd yn effeithio ar y gallu i dalu'r cyflog byw gwirioneddol.[11]

**37.** Clywsom gan Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu yn adrodd 'cyn bo hir'[12]

## Ein barn ni

**38.** Mae'n amlwg bod y diffyg cyflenwad tai fforddiadwy yn effeithio ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas a bod anghenion cymorth pobl yn mynd yn fwy cymhleth, yn rhannol oherwydd arosiadau hir mewn llety dros dro anaddas. Mae'r galw yn parhau i fod ar lefelau uchel iawn.

**39.** Rydym yn pryderu ynghylch yr effaith y mae'r pwysau hwn yn ei chael ar bobl sy'n byw mewn llety dros dro a hefyd y gweithlu sy'n eu cefnogi. Cawsom

[10] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 153
[11] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
[12] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 71

ein synnu gan y dystiolaeth bwerus nad yw pobl sy'n gweithio yn y sector cymorth tai yn cael eu cefnogi'n dda a bod rhai o’r bobl hyn mewn perygl o fynd yn ddigartref eu hunain. Nid yw hyn yn dderbyniol ac ni ddylid trin y gweithlu cymorth tai yn llai ffafriol na'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gweithlu yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi pobl agored i niwed i fyw'n annibynnol. Mae eu gwaith yn hanfodol ac, mewn rhai achosion, yn achub bywydau. Mae’r cymorth a roddir ganddynt o fudd nid yn unig i'r unigolion dan sylw, ond hefyd i'r sector cyhoeddus ehangach; mae eu gwaith hanfodol yn helpu i atal sefyllfaoedd argyfwng a fyddai'n costio llawer mwy o ran cyllid ac adnoddau i eraill fel y GIG a’r gwasanaethau cymdeithasol.

**40.** Rydym yn croesawu sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu, gyda'i ffocws penodol ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu. Rydym yn nodi y disgwylir i’r Grŵp gyflwyno adroddiad yn fuan ac rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i rannu ei ganfyddiadau gyda ni. Bydd hyn yn bwysig o ystyried cyfranogiad uniongyrchol y gweithlu a gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn nodi ei chasgliadau ac yn cymryd camau i weithredu’r argymhellion yn gyflym. Byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl. Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd materion sy'n ymwneud â'r gweithlu fel rhan o'n gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth digartrefedd sydd ar ddod.

**Casgliad 3.** Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd am ei hymateb i argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu cyn gynted â phosibl.

**41.** Mae'n hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth gadarn o'r pwysau sy'n wynebu'r sector, ond gwelsom fod sawl maes lle mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn gwbl anwybodus. Rydym yn pryderu ynghylch y naratifau gwrthgyferbyniol a glywsom gan Lywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaethau ar ddau fater pwysig.

**42.** Un yw a yw gwaith atal ymhellach i fyny’r broses wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd bod adnoddau'n cael eu defnyddio i ymdrin ag argyfyngau. Cawsom sicrwydd gan ddarparwyr bod atal ymhellach i fyny’r broses wedi lleihau, ond dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd ei data yn dangos unrhyw arwyddion o ran lleihau.

**43.** Yr ail fater yw a fydd y cynnydd cyllidebol o £21 miliwn ar gyfer 2025-26 yn talu costau'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, hyd yn hyn, bod cynlluniau a dderbyniwyd gan awdurdodau

lleol yn dangos y bydd y cynnydd yn ddigonol. Fodd bynnag, soniodd darparwyr am orfod defnyddio ffynonellau incwm eraill i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac roeddent yn amlwg yn ddigon pryderus i godi'r posibilrwydd o gontractau'n cael eu trosglwyddo yn ôl neu beidio â chael cynnig amdanynt fel posibilrwydd realistig. Rydym yn gwerthfawrogi y byddai'r rhain yn gamau arwyddocaol iawn i ddarparwyr ac nid yw'n rhywbeth i'w gymryd yn ysgafn, ac rydym yn gobeithio na fydd y sefyllfa yn cyrraedd pwynt o'r fath. Mae'n hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth glir o'r graddau y mae cynlluniau gwariant awdurdodau lleol yn seiliedig ar asesiad realistig o gostau gwirioneddol darparu gwasanaethau. Mae angen i hyn ddigwydd i sicrhau nad yw capasiti gwasanaethau yn lleihau ledled Cymru oherwydd cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

**Casgliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ymgysylltu'n fwy ystyrlon â darparwyr gwasanaethau cymorth tai, er mwyn sicrhau ei bod yn ystyried gwahanol safbwyntiau ynghylch pwysau rheng flaen yn ogystal â gwybodaeth a dderbynnir gan awdurdodau lleol.

**Casgliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru edrych yn feirniadol ar sut mae awdurdodau lleol yn cyfrif costau gwasanaethau a dylai gymryd camau i sicrhau bod y costau hyn yn realistig.

**Casgliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei data ar atal i sicrhau ei bod yn casglu digon o fanylion am y cydbwysedd rhwng gwaith atal ymhellach i fynu'r broses yn erbyn ymyriadau argyfwng.

# 4. Perfformiad gwasanaethau

## Rheoleiddio a monitro contractau

**44.** Trafododd a mynegodd rhanddeiliaid wahanol safbwyntiau ar reoleiddio gwasanaethau cymorth tai a monitro contractau, gan gynnwys yr amrywiadau rhwng Cymru a'r Alban, a chyda Lloegr. Teimlai rhai fod gwasanaethau eisoes yn cael eu harchwilio'n drylwyr, tra bod eraill yn teimlo nad oes gan awdurdodau yr adnoddau, weithiau, i fonitro contractau'n drylwyr. Dywedodd Platfform fod baich ar elusennau eisoes o ran gormod o fiwrocratiaeth reoleiddiol. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru ei fod yn gweld y risg sylfaenol i ddefnyddwyr gwasanaethau yn deillio o orddibyniaeth ar lety dros dro, yn hytrach nag o unrhyw fylchau mewn rheoleiddio gwasanaethau cymorth. Dywedodd Byddin yr Iachawdwriaeth fod rhywfaint o fframwaith rheoleiddiol yr Alban ar gyfer

gwasanaethau cymorth yn dda iawn, ac er na fyddai am weld unrhyw beth ychwanegol o ran rheoleiddio, byddai'n dda cael adolygiad o'r system. Dywedodd Goleudy fod ei brofiad o reoleiddio ei wasanaethau gofal yn gadarnhaol, ac y byddai'n ddymunol i ddefnyddwyr gwasanaethau cymorth tai gael llais uniongyrchol gyda rheoleiddiwr, yn yr un modd â defnyddwyr gwasanaethau gofal.

## Data

**45.** Clywsom fod perfformiad gwasanaethau yng Nghymru yn cael ei fonitro'n bennaf drwy fframwaith canlyniadau Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn casglu data am ganlyniadau o dan y fframwaith hwn ers mis Ebrill 2023 i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ond ni chyhoeddir unrhyw ddata ar lefel genedlaethol. Yn ogystal â chasglu'r data am ganlyniadau, mae awdurdodau lleol yn casglu eu data monitro eu hunain sy'n amrywio fesul awdurdod.

**46.** Dywedwyd wrthym fod llawer o ddarparwyr yn teimlo bod angen symleiddio a safoni prosesau casglu data awdurdodau lleol eu hunain, gan y dywedwyd wrthym fod llawer o amrywiadau, a all fod yn feichus i'w hadrodd, ac nid yw diben casglu'r data bob amser yn glir. Cyfeiriodd Cymorth at 'feicroreoli' gwasanaethau gan rai awdurdodau lleol. Dywedodd y Wallich y gall data pobl fod yn sensitif iawn eu natur, ac os caiff eu casglu, dylid eu trin yn gyfrifol a'u defnyddio'n effeithiol ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.

**47.** Dywedodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol wrthym y byddent yn agored i safoni prosesau casglu data awdurdodau lleol.

**48.** Cytunodd y rhan fwyaf o dystion y dylid cyhoeddi data canlyniadau Llywodraeth Cymru ei hun a'u defnyddio i nodi arfer da, bylchau mewn gwasanaethau, diffygion ac ati. Dywedodd llawer oherwydd nad yw'r data hyn yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd, nid yw darparwyr ac awdurdodau lleol yn gweld unrhyw fudd o'u casglu ac na allant eu defnyddio i wella perfformiad. Nododd Cyngor Caerdydd nad oes fawr o adborth gan Lywodraeth Cymru ar y defnydd o ddata am ganlyniadau,[13] tra bod y Wallich wedi dweud nad yw wedi gweld fawr o dystiolaeth bod y drefn newydd hon yn helpu i godi safonau ledled Cymru.[14]

**49.** Tynnodd Housing Justice Cymru sylw at ei fodel Citadel, sy'n darparu cymorth yn ôl yr angen gan wirfoddolwyr yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot

[13] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, HSVP 19: Cyngor Caerdydd
[14] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, HSVP 11: Y Wallich

a Wrecsam. Mae prosiectau Citadel yn cyflawni cyfradd cynnal tenantiaeth o 98 y cant am chwe mis ar ôl y cymorth, ond gan nad yw data am ganlyniadau’r Grant Cymorth Tai yn cael eu cyhoeddi, nododd Housing Justice Cymru na all gymharu cyfradd llwyddiant Citadel â gwasanaethau cyfatebol er mwyn dadlau dros ehangu’r model i awdurdodau lleol eraill.

**50.** Dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru wrthym ei bod yn bwriadu rhannu crynodeb o’r data am ganlyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol lawn 2024-25 ac y bydd yn ôl pob tebyg mewn sefyllfa i wneud hynny yn yr haf ar ôl i’r data ddod i law a chael eu sicrhau o ran ansawdd.[15]

## Ein barn ni

**51.** Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd ynglŷn â chasglu data o fewn y sector a'r alwad am welliannau. Mae llawer iawn o ddata yn cael eu casglu, ac rydym yn credu y gellid gwneud defnydd llawer gwell o hynny. O ystyried sensitifrwydd rhywfaint o'r data y gofynnwyd amdanynt, rydym yn cytuno y dylid defnyddio'r wybodaeth hon yn gyfrifol, fel tystiolaeth i nodi arfer da a gyrru gwelliannau er budd defnyddwyr gwasanaethau.

**52.** Rydym yn croesawu sicrwydd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r data am ganlyniadau y mae'n eu casglu. Mae hyn yn bwysig i wella'r sylfaen dystiolaeth. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y bydd crynodeb lefel uchel yn darparu digon o wybodaeth i ganiatáu i ddarparwyr ac awdurdodau gymharu eu perfformiad a gwella arfer.

**53.** Rydym yn sylweddoli bod angen data ar awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'u sefyllfaoedd lleol unigol, fodd bynnag, rydym yn deall yr heriau y mae darparwyr sy'n gweithio ar draws ardaloedd yn eu hwynebu wrth gyflenwi gwahanol fathau o ddata ar gyfer pob awdurdod. Rydym yn croesawu’r arwydd gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol y byddent yn agored i ystyried safoni eu prosesau casglu data eu hunain. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol i safoni a symleiddio'r gwaith o gasglu data i leihau'r baich ar ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaeth, gan sicrhau bod anghenion lleol hefyd yn cael eu diwallu.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod data cymorth tai yn ysgogi gwelliannau i wasanaethau. Dylai hyn gynnwys datblygu'r data am ganlyniadau i fod yn sylfaen dystiolaeth genedlaethol gadarn a hygyrch

[15] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 101

y gall awdurdodau lleol a darparwyr gyfeirio ati er mwyn gwerthuso eu gwasanaethau yn erbyn eraill a nodi arfer da.

**Casgliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i safoni a symleiddio eu prosesau casglu data eu hunain er mwyn sicrhau cysondeb a chymaroldeb a lleihau'r baich ar ddarparwyr gwasanaethau.

**54.** Rydym yn nodi, er nad oes rheoleiddio nac arolygiad ffurfiol o wasanaethau cymorth tai yng Nghymru, fod rhanddeiliaid yn gyffredinol o'r farn bod digon o reolaeth ansawdd. Rydym yn cydnabod bod rhai wedi dweud y gellid monitro contractau yn fwy trylwyr, a bod llais defnyddwyr gwasanaeth yn elfen goll. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod y dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod angen dull rheoleiddio cwbl newydd ar hyn o bryd.

**Casgliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio ag awdurdodau lleol i ystyried ffyrdd o roi llais uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth wrth fonitro gwasanaethau, ac o bosibl dysgu o'r ffordd y mae gwasanaethau gofal yn cael eu rheoleiddio.

# 5. Cydweithio

**55.** Clywsom fod cymorth aml-asiantaeth yn elfen allweddol o ailgartrefu cyflym, ond dywedodd tystion wrthym fod angen mwy o gydweithredu a gweithio traws-sector, yn enwedig gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**56.** Awgrymodd nifer o dystion nad oes gan staff yr amser na'r capasiti i feithrin perthnasoedd ac archwilio modelau cydweithio. Clywsom gan y Wallich fod peidio â chynnwys cydweithio fel rhan o'r broses gomisiynu yn rhwystr:

> *"A tender might come out and we might have only four weeks to respond to that tender. It's not enough time to really form those partnerships that are needed to provide the best service for the people it's trying to support. So, you see lots of partnership going on, but it's generally goodwill that makes those happen, and a want to provide the best service. It's not necessarily designed within the commissioning structures, the finances and the time taken to do that. So, one solution would be to allow for that within commissioning."*[16]

[16] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 104

**57.** Dywedodd Clwyd Alyn wrthym, er gwaethaf rhai enghreifftiau da o arfer da iawn, nad yw'r rhain yn gyson, a'u bod yn ddigwyddiadau untro, gan ychwanegu'r canlynol:

> *"They're often pilots; new money is found for a period, there are some great outcomes, and then those things stop when the funding is no longer there. They don't become the mainstream things that we all hoped and anticipated that they would."*[17]

**58.** Cytunodd CLlLC fod capasiti yn rhwystro rhagor o gydweithio, a bod angen rhannu arfer da ledled Cymru.

**59.** Roedd y rhan fwyaf o'r tystion yn gadarnhaol ynglŷn â'r cynigion cydweithio yn y Papur Gwyn, gan gynnwys dyletswydd ar wasanaethau cyhoeddus penodol i nodi pobl sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref a'u cyfeirio at gymorth, a dull statudol o gydgysylltu achosion ar gyfer pobl ag anghenion cymorth lluosog a chymhleth sydd angen mewnbwn gan dri gwasanaeth cyhoeddus neu fwy. Galwodd rhai ar Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y Bil sydd ar ddod, gan gynnwys Clwyd Alyn a ddywedodd y gallai'r uchelgais yn y Papur Gwyn o wneud rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn ddyletswydd sector cyhoeddus ehangach, fod yn offeryn neu ddull defnyddiol i annog mwy o gydweithio eto yn y dyfodol.[18]

**60.** Dadleuodd Cymorth a'r Wallich am ragor o gyd-ariannu a chyd-gomisiynu gwasanaethau. Nododd y Wallich nad yw'r Grant Cymorth Tai o reidrwydd yn cefnogi gweithio cydgysylltiedig, gan ei fod yn cael ei ystyried yn bennaf fel cronfa dai. Dywedodd Cymorth Cymru fod angen i wasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd meddwl gamu i'r adwy i helpu i ariannu cymorth i bobl sydd wedi profi digartrefedd cronig ac a allai, o ganlyniad, fod ag anghenion cymorth gydol oes.

**61.** Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan nifer o randdeiliaid fod y cyllid anghenion cymhleth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru drwy Fyrddau Cynllunio Ardal (£4.5 miliwn yn 2024-25) wedi bod yn effeithiol wrth gefnogi gwaith amlasiantaethol. Dywedodd Cymorth ei fod yn gweithredu fel catalydd, hefyd yn helpu i ddod ag arian i mewn o ffynonellau eraill.

**62.** Nododd staff rheng flaen a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws broblemau rhannu data rhwng gwasanaethau fel rhwystr allweddol i gydweithio effeithiol.

---

[17] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 306
[18] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 306

Roedd y diffyg gwybodaeth a oedd yn cael ei throsglwyddo yn aml yn arwain at unigolion ag anghenion cymhleth yn cael eu rhoi mewn tai anaddas, gyda staff yn cyfaddef nad oeddent yn gallu a/neu heb gymwysterau i ddarparu'r lefel o gymorth oedd ei hangen:

> *"Fe wnaethon ni dderbyn rhywun yn ddiweddar ac roedd yr asesiad risg a'r wybodaeth oedd gynnon ni yn ymddangos yn iawn. Y diwrnod symudodd hi i mewn fe wnaethon nhw anfon e-bost atom gyda'r gwirionedd. Roedd yn berson di-drefn arall gyda'r tri pherson di-drefn arall sydd gennym. Mae angen i ni gael mwy o onestrwydd; mae angen mwy o help arnon ni pan fydd pethau'n dechrau datgymalu. Mae angen i ni gael pobl y gallwn alw arnyn nhw, gwasanaethau iechyd meddwl.."*[19]

> *"mae'r rhwystrau strwythurol i weithio mewn partneriaeth mor gyffredin ar draws y gwasanaethau. Yn anffodus, mae rhai o'r pethau sylfaenol fel rhannu data a gwybodaeth ar draws sectorau yn rhan enfawr o rwystrau gwaith amlddisgyblaethol. . . Mae rhannu gwybodaeth a llywodraethu yn hollbwysig. Dyw gwasanaethau a systemau mor fawr â Gweithrediaeth GIG Cymru ddim yn mynd i newid polisïau ac arferion heb fod hynny'n cael ei wneud drwy ddeddfwriaeth a hyd nes y bydd y newidiadau hynny'n digwydd, mae gweithio mewn partneriaeth yn dibynnu ar unigolion da i ystwytho'r ddeddfwriaeth, gan ystwytho'r rheolau mewn gwirionedd, yn hytrach na bod y ddeddfwriaeth a'r rheolau yn bodloni'r angen i weithio mewn partneriaeth."*[20]

> *"Rwy'n meddwl bod rhywfaint o'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda gwasanaethau, mae yna lawer o ofn o ran torri amodau diogelu data, beth sy'n gallu cael ei rannu ac mae hynny'n rhwystr enfawr."*[21]

**63.** Cyfeiriodd papur Ysgrifennydd y Cabinet at enghreifftiau o arfer da o ddulliau amlasiantaeth a weithredwyd gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a Chyngor Caerdydd gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i gefnogi pobl sy'n profi digartrefedd ac yn cael eu lleoli mewn llety dros dro. Cafodd y ddwy enghraifft hyn eu crybwyll gan nifer o randdeiliaid hefyd. Dywedodd swyddog

[19] Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd
[20] Cyfrannwr grŵp ffocws, Abertawe
[21] Cyfrannwr grŵp ffocws, Abertawe

Llywodraeth Cymru wrthym fod y canllawiau amrywiol a ddarperir i strategaethau rhaglen cymorth tai awdurdodau lleol i gyd yn hyrwyddo a phwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, cydweithio, yn ogystal â deall anghenion lleol ac ymateb i'r anghenion lleol hynny, gan ddweud ei fod eisoes wedi'i gynnwys ynddynt o ran y canllawiau presennol. Dywedodd swyddog arall fod Llywodraeth Cymru yn ystyried mai ei rôl yw hyrwyddo modelau arfer da a dangos prawf o gysyniad, ond nad yw'n rhagnodi'n benodol o fewn y Grant Cymorth Tai pa fodelau cyflawni y mae'n rhaid iddynt eu hariannu.[22]

**64.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd at fodel Caerdydd a'r Fro fel enghraifft o ble mae data wedi cael eu rhannu'n effeithiol, gan ddweud y canlynol:

> *"to see the data that they're sharing and the picture now that they have, because of that data sharing, is really good, and it's actually really important."*

**65.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym nad oedd hi'n deall pam nad yw pawb arall yn dilyn hynny a rhaid bod mwy y gallwn ei wneud o fewn hynny. At hynny, dywedodd ei bod yn anodd dweud wrth bobl, yn amlwg, bod yn rhaid iddyn nhw weithio gyda'i gilydd, oherwydd nid yw hynny bob amser yn creu'r amgylchedd gorau i bethau ddigwydd, ond fe wnaeth hi gydnabod rhaid iddo fod er budd pawb i weithio gyda'i gilydd.[23] Ychwanegodd swyddog Llywodraeth Cymru fod yr amharodrwydd i rannu data rhwng asiantaethau yn aml yn gallu bod yn gamddealltwriaeth, weithiau nerfusrwydd, ynglŷn â rhannu gwybodaeth bersonol o bosibl, a pheidio â deall yn union sut i weithredu o fewn y protocolau sy'n bodoli o amgylch rhannu data.[24]

## Ein barn ni

**66.** Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o'r tystion yn gadarnhaol ynglŷn â'r cynigion cydweithio yn y Papur Gwyn a bu galwadau i'r rhain gael eu cynnwys yn y Bil sydd ar ddod. Byddwn yn archwilio hyn ymhellach fel rhan o'n gwaith craffu deddfwriaethol.

**67.** Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddangos mwy o ffocws ar wella cydweithio ar draws asiantaethau. Rydym yn pryderu nad yw'r dull presennol yn cael ei arwain yn ddigonol gan dystiolaeth. Cafodd yr un ddwy enghraifft o arfer

[22] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 24 a 26
[23] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 30
[24] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 31

da, o Fyrddau Iechyd Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro, eu crybwyll dro ar ôl tro gan randdeiliaid a Llywodraeth Cymru, ond ni chlywsom arwydd clir o sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r ddwy enghraifft hynny ddod yn rhan annatod o arfer safonol ym mhob man lle mae eu hangen. Lle mae tystiolaeth i ddangos enghreifftiau o gydweithio effeithiol, fel y rhai a ddyfynnwyd, dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o gyflwyno dulliau o'r fath ledled Cymru, nid yn unig drwy ledaenu gwybodaeth ond drwy fod yn fwy hyderus, fel drwy osod amodau ar gyllid grant. Credwn, lle mae tystiolaeth i brofi bod dull yn effeithiol, y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol eraill ddilyn y dystiolaeth honno. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid cymhwyso amodau cydweithio i gyllid er mwyn ymgorffori dull partneriaeth i raddau helaeth ledled Cymru.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd rôl fwy pendant mewn perthynas â chydweithio i sicrhau bod arfer da sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei efelychu ym mhobman y mae ei angen ledled Cymru. Dylai wneud hyn trwy sicrhau bod y strwythurau a'r cyllid grant cywir ar waith, gan gynnwys amodau grant lle bo angen.

**68.** Rydym wedi ein siomi gan ymateb Llywodraeth Cymru ynghylch rhannu data rhwng asiantaethau. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y manteision rhannu data o ran dull Caerdydd a'r Fro, ond nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd ag eraill. Lle mae model penodol yn gweithio'n dda ac yn arwain at ganlyniadau da, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i rannu'r arfer hwnnw ac annog dulliau tebyg mewn mannau eraill. Rydym yn cydnabod y gallai pryderon ynghylch diogelu data fod yn rhwystr, felly o ystyried pwysigrwydd dull cyson, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu protocolau rhannu data rhwng asiantaethau priodol fel y gall pawb sy'n ymwneud â chefnogi unigolyn gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

**Casgliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu protocolau rhannu data rhwng asiantaethau priodol i sicrhau bod pawb sy'n cefnogi pobl drwy ddigartrefedd yn gallu cael mynediad at yr holl wybodaeth berthnasol.

# 6. Dyfodol cymorth tai

**69.** Dywedodd llawer o dystion y dylai Tai yn Gyntaf barhau i dyfu. Cafodd Tai yn Gyntaf ei ddisgrifio gan Cymorth fel model sydd â hanes o lwyddo, sydd wedi'i brofi'n rhyngwladol, gan ychwanegu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cefnogi

hynny.[25] Clywsom gan Ysgrifennydd y Cabinet fod y gyfradd cynnal tenantiaeth o 91 y cant yn dangos effeithiolrwydd y rhaglen yng Nghymru, a ddywedodd hefyd pa mor bwysig y mae wedi bod i bobl sydd wedi mynd drwyddi. Roedd tystion yn glir o ran y ffaith bod angen mwy o dai, yn enwedig i bobl sengl.

**70.** Dywedodd Cymorth fod y duedd gyffredinol yn gadarnhaol o ran twf ond bod angen ei chyflwyno i bob awdurdod lleol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym, ar y pryd, nad oedd gan bedwar awdurdod brosiect. Dywedodd Cymorth wrthym fod un awdurdod lleol yn ymddangos fel ei fod yn camu i ffwrdd o Tai yn Gyntaf, a bod hyn, yn ôl Cymorth, yn frawychus iawn.[26] Dywedodd Llamau a Byddin yr Iachawdwriaeth bod diffyg ewyllys ymhlith rhai cymdeithasau tai i gefnogi Tai yn Gyntaf. Awgrymodd Cyngor Ynys Môn y gallai fod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith rhai awdurdodau lleol ynghylch beth yw Tai yn Gyntaf.

**71.** Dywedodd Llamau fod y model ariannu ar gyfer llety â chymorth yn dibynnu ar ganran o gostau staffio yn cael eu hadennill o renti a thaliadau gwasanaeth yn hytrach na'r Grant Cymorth Tai. Dywedodd fod hyn yn golygu bod rhenti'n mynd yn ddrud iawn, sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl ifanc symud i gyflogaeth tra'n byw yno gan y byddent yn dod yn atebol am dalu'r rhent drwy eu cyflogau yn hytrach na budd-dal tai. Galwodd Llamau am ddiwygio model ariannu'r Grant Cymorth Tai i dalu costau rhent pobl ifanc sy'n symud i waith.

**72.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo cyflwyno Tai yn Gyntaf ymhellach gydag awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn rhannu arfer da a'r gyfradd gynnal tenantiaeth rhagorol honno.[27] At hynny, dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru ei bod yn cael sgyrsiau am Dai yn Gyntaf a modelau arfer da eraill gydag awdurdodau lleol, ac o ran pam nad oes gan bob awdurdod brosiectau ar waith. Dywedodd os ydyn nhw mewn sefyllfa ffodus o beidio â chael unigolion sydd ar y pen cymhleth iawn hwnnw yn eu hasesiad anghenion, efallai na fydd angen model Tai yn Gyntaf arnynt yn eu hardal. At hynny, dywedodd o ystyried cymhlethdod yr angen y maent yn ei weld yn gyffredinol ledled Cymru, byddent yn annog awdurdodau lleol, fel rhan o'u cynlluniau ailgartrefu cyflym a'u hasesiadau o anghenion, i edrych o ddifrif ar sut y gallai Tai yn Gyntaf eu helpu gyda'r garfan anghenion cymhleth iawn honno.[28]

[25] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 134
[26] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 134
[27] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 120
[28] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 124

**73.** Clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal gweminarau arfer gorau ac wedi sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n edrych ar gyfathrebu a rhannu arfer gorau ynghylch ailgartrefu cyflym, gyda'r nod o annog mwy o ymrwymiad ymhlith awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

**74.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet pa mor hanfodol yw cyflenwad tai i alluogi awdurdodau lleol i gael prosiectau Tai yn Gyntaf llwyddiannus a chynaliadwy, oherwydd heb hynny, nid oes Tai yn Gyntaf.[29]

**75.** O ran llety â chymorth i bobl ifanc a fforddiadwyedd rhenti, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y mater wedi cael ei godi gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Ychwanegodd swyddog na ellid addasu fformiwla ariannu’r Grant Cymorth Tai gan y byddai’n lleihau faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer costau cymorth rheng flaen, ond gellir defnyddio ffynonellau cyllid eraill megis taliadau tai yn ôl disgresiwn.

## Ein barn ni

**76.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil sy'n ymwneud â digartrefedd ac rydym yn disgwyl cynnal gwaith craffu ar y Bil hwnnw. Mae'r ymchwiliad byr hwn wedi bod o fudd wrth dynnu sylw at y materion craidd sy'n ymwneud â chymorth tai, y byddwn yn mynd ar eu trywydd ymhellach trwy ein gwaith craffu deddfwriaethol.

**77.** Rydym yn cydnabod y dystiolaeth glir ar fanteision model Tai yn Gyntaf o ran darparu cartrefi sefydlog i bobl â lefelau uchel o anghenion cymorth/neu hanes o gysgu allan a'r galwadau i ehangu a gweithredu Tai yn Gyntaf ar draws pob ardal awdurdod lleol. Rydym yn pryderu ynghylch yr awgrym y gallai un awdurdod lleol roi'r gorau i'r dull Tai yn Gyntaf.

**78.** Ni chawsom ein hargyhoeddi gan yr awgrym nad oes gan awdurdodau lleol nad ydynt yn cynnal prosiectau Tai yn Gyntaf achosion cymhleth sydd angen y dull hwnnw. O ystyried maint digartrefedd ledled Cymru, byddai hyn yn ymddangos yn annhebygol. Yng ngoleuni llwyddiant hysbys y model, rydym o’r farn y byddai'n fuddiol i holl awdurdodau lleol Cymru ei fabwysiadu.

**Casgliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu asesiad annibynnol o faint yr angen nas diwallwyd am wasanaethau Tai yn Gyntaf ledled Cymru, a gweithio gydag awdurdodau lleol i ddiwallu'r angen hwnnw'n raddol.

[29] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 121

**79.** Rydym yn croesawu’r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i dynnu sylw at anfforddiadwyedd rhenti llety â chymorth i bobl ifanc sydd am symud i gyflogaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo'r holl gyfrifoldeb am hyn i Lywodraeth y DU. Dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw arfer da sy'n bodoli eisoes ac, os oes angen, datblygu modelau o lety a chymorth sy'n darparu cartrefi fforddiadwy a sefydlog i bobl ifanc.

**Casgliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr tai i ddatblygu modelau arfer da ar gyfer llety pobl ifanc gyda rhenti fforddiadwy.

**80.** Rydym yn croesawu’r ffaith bod is-grŵp y Grŵp Cynghori Cenedlaethol Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ar ailgartrefu cyflym yn ystyried sut y gall cyfathrebu gynorthwyo mwy o ymwybyddiaeth a chefnogaeth. Fodd bynnag, rydym yn ailadrodd ein pwynt bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd rôl gadarn wrth wireddu ailgartrefu cyflym. Dylai hyn gynnwys gosod disgwyliadau clir i awdurdodau lleol fabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gosod amserlenni a cherrig milltir, a chysylltu disgwyliadau ag amodau grant os oes angen. Heb y disgwyliadau a'r amodau clir hyn ar waith, nid ydym yn credu bod cyfathrebu'n debygol o fod yn effeithiol.

**81.** Byddwn yn parhau i ystyried y materion hollbwysig hyn fel rhan o'n gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth sydd ar ddod.